| Cyfenw | Rhif y Ganolfan | Rhif yr Ymgeisydd |
|---|---|---|
| Enw(au) cyntaf | | 4 |

cbac wjec

# LEFEL 2

# GOFAL, CHWARAE, DYSGU A DATBLYGIAD PLANT: CRAIDD
## Unedau 001/002 Jack a Poppy
## Set C

5952N1012C2 01

| Cwestiwn | Marc Uchaf | Marc yr Aseswr |
|---|---|---|
| 1. | 1 | |
| 2. | 4 | |
| 3. | 4 | |
| 4. | 3 | |
| 5. | 2 | |
| 6. | 4 | |
| 7. | 5 | |
| 8. | 4 | |
| 9. | 3 | |
| Cyfanswm | 30 | |

| Sylwadau'r Aseswr: |
|---|
| Llofnod IQA:<br>Dyddiad: |

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

CJ*(W20-5952N10-12C2)

**Senario – Jack a Poppy**

Mae Jack a Poppy (3 oed) yn efeilliaid *(twins)*; cyn bo hir, bydd y ddau yn dechrau mynychu Meithrinfa Little Stars. Cyn i'r plant ddechrau yn y feithrinfa, mae Little Stars yn rhoi pwyslais cryf ar sefydlu perthnasoedd â theuluoedd a gofalwyr. Mae hyn yn cael ei wneud drwy gynnal sesiynau galw heibio *(drop-in)* i deuluoedd, cyfathrebu'n rheolaidd, tywys pobl o gwmpas y feithrinfa, gwneud cysylltiadau â lleoliadau eraill y gallai'r plant fod wedi eu mynychu cyn hyn, a chynnal sesiynau ymgartrefu *(settling-in sessions)*.

Mae Jack a Poppy wedi cael dwy sesiwn ymgartrefu ac mae eu rhieni wedi cael cyfarfod â rheolwr y feithrinfa. Yn ystod y cyfarfod hwn, mae rheolwr y feithrinfa'n gofyn am fywyd cartref Poppy a Jack, eu cefndir, eu profiadau ac anghenion unigol y ddau. Mae rheolwr y feithrinfa'n nodi'r canlynol:

**Jack:**

- siaradus iawn
- mwynhau gweithio gyda rhifau; mae Jack yn gallu adrodd rhifau 1 i 10 ac adnabod rhifau hyd at 5 yn barod.

**Poppy:**

- swil iawn a dydy hi ddim yn siarad llawer gartref. Mae Poppy yn dibynnu ar bwyntio a gwneud ystumiau *(gesturing)* er mwyn i bobl ei deall hi (mae'r pryderon hyn wedi cael eu rhannu â'r ymwelydd iechyd)
- nerfus o gwmpas oedolion anghyfarwydd ac angen llawer o gysur *(reassurance)*
- dibynnu ar ei brawd i gyfathrebu ar ei rhan pan dydy mam neu dad ddim yno
- mwynhau gweithgareddau lle mae angen iddi ddefnyddio ei synhwyrau.

Mae'r rhieni hefyd yn esbonio bod Jack a Poppy wedi mynychu grŵp chwarae Cylch Ti a Fi pan oedden nhw'n blant bach, a'u bod nhw'n awyddus i weld yr efeilliaid yn parhau i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg yn Little Stars. Mae rheolwr y feithrinfa'n sicrhau'r rhieni bod y Gymraeg a diwylliant Cymru'n cael eu dathlu mewn llawer o ffyrdd yn Little Stars. Maen nhw'n cyflwyno brawddegau Cymraeg bob wythnos, yn defnyddio Cymraeg achlysurol *(incidental Welsh)* drwy gydol y dydd yn y feithrinfa, ac yn cynnal sesiynau odli Cymraeg. Hefyd, mae storïau, llyfrau a cherddoriaeth Gymraeg ar gael i'r plant.

Mae'r rhieni'n canmol cysylltiadau cryf a pherthnasoedd cadarnhaol y feithrinfa â theuluoedd; er hyn, maen nhw'n dal i fod yn nerfus iawn ynglŷn â'r plant yn dechrau yn y feithrinfa. Mae hyn oherwydd sesiynau ymgartrefu Poppy – doedden nhw ddim yn llwyddiannus iawn. Yn ystod y sesiynau hyn, roedd Jack yn hapus i adael ochr ei fam am gyfnodau byr. Roedd yn edrych yn ôl ar ei fam yn aml, ond yn hapus i symud o gwmpas y lleoliad, gan wneud rhai o'r gweithgareddau chwarae. Ni wnaeth Poppy adael ochr ei mam. Cafodd ei chario i mewn i'r feithrinfa gan ei mam ac yna roedd hi'n eistedd yng nghôl *(lap)* ei mam drwy gydol pob ymweliad.

Yn ystod y sesiynau ymgartrefu, roedd gweithiwr allweddol, John, yn arsylwi'r plant. Wrth arsylwi Jack, roedd John yn teimlo ei fod yn rhagori *(excelled)* wrth weithio gyda rhifau, ac y gallai fod yn fwy galluog neu dalentog yn y maes hwn. Rhannodd John y wybodaeth hon â Chydlynydd Anghenion Ychwanegol *(Additional Needs Co-ordinator: ANCO)* y lleoliad. Er hyn, sylwodd John wrth arsylwi fod diffyg adnoddau rhifau a siapiau yn y feithrinfa. Dim ond posau rhif hyd at 5 oedd ar gael, ac roedd rhai o'r darnau ar goll. Sylwodd John hefyd fod arddangosfa'r llinell rhifau wedi cael ei symud yn ddiweddar i wneud lle i arddangosfa newydd, ac nad oedd wedi cael ei rhoi yn ôl yn ei lle. Pan oedd y staff yn siarad â Jack, roedd yn amlwg i John bod Jack yn gwrando ar beth roedden nhw'n ei ddweud ac yn ymateb drwy ddefnyddio gweithredoedd, ystumiau, geiriau a brawddegau syml. Siaradodd y staff â Jack am ei hoff deganau a beth byddai'n hoffi ei wneud yn y feithrinfa. Pwyntiodd Jack at yr hambwrdd dŵr a dywedodd wrth y staff ei fod yn hoffi chwarae â cheir.

Wrth arsylwi Poppy, gwelodd John ei bod hi'n gyndyn *(reluctant)* i adael ei mam a'i bod hi'n dewis eistedd yng nghôl ei mam drwy gydol yr amser roedd hi yno. Gwelodd John fod ganddi ddiffyg sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu. Teimlodd hefyd nad oedd Poppy yn gwneud cyswllt llygad ag oedolion na phlant yn y lleoliad a doedd hi ddim yn cyfathrebu ar lafar na thrwy ystumiau. Roedd Poppy yn osgoi cyswllt llygad ac yn cuddio yng nghôl ei mam pan oedd staff yn ceisio siarad â hi.

**Diwrnod dechrau:**

Mae staff y feithrinfa'n paratoi at ddiwrnod cyntaf Jack a Poppy yn y feithrinfa. Maen nhw'n defnyddio'r wybodaeth maen nhw wedi'i chasglu o'r sesiynau ymgartrefu ac o'r sgyrsiau â'r rhieni. Mae'r staff wedi penderfynu y dylai Jack a Poppy aros yn yr un grŵp gweithiwr allweddol fel eu bod yn gallu cefnogi ei gilydd drwy'r cyfnod trosglwyddo *(transition)* hwn. Mae eu gweithiwr allweddol, John, wedi arsylwi Jack a Poppy ac wedi gwneud cynlluniau a gosod rhai targedau clir yn seiliedig ar ei arsylwadau.

**Jack:**

1. gweithgareddau sy'n cefnogi diddordeb Jack mewn rhifau
2. caneuon a phenillion am rifau.

**Poppy:**

1. sicrhau bod Poppy yn cymryd rhan mewn chwarae cyfochrog gyda phlant eraill
2. annog Poppy i ymateb i oedolion cyfarwydd drwy ddefnyddio ystumiau llaw syml neu fynegiant wyneb yn ystod gweithgareddau chwarae rhydd.

Mae John wedi edrych yn fanwl ar yr amgylchedd. Mae wedi gosod yr hambwrdd tywod a dŵr gydag amrywiaeth o offer. Mae hyn yn cynnwys rhifau sbwng hyd at 10. Mae hefyd wedi rhoi clai modelu persawrus *(scented modelling clay)* ac offer, papur enfawr, sbwng a phaent yn yr ardal gelf. Ar un pen o'r bwrdd, mae John wedi gosod posau rhif, pos siapiau, pos patrymau sy'n ailadrodd, a rhifau hyd at 5, 10 a 20. Mae hefyd wedi rhoi'r arddangosfa rifau, sy'n fawr ac yn lliwgar, yn ôl yn ei lle yn yr ardal hon. Mae John yn ychwanegu ceir a thryciau at yr olygfa dinas byd bach. Mae hefyd yn rhoi stori'r Gryffalo a phypedau yn yr ardal ddarllen gan mai hon yw stori'r wythnos yn y feithrinfa. Mae John yn arddangos lluniau Gryffalo y plant o'r diwrnod cynt er mwyn dathlu'r hyn mae'r plant wedi'i gyflawni.

5952N1012C2
03

Arholwr yn unig

*Atebwch* **bob** *cwestiwn.*

## Cwestiynau Jack a Poppy: Set C

**1.** Nodwch sut mae John yn sicrhau bod yr amgylchedd yn cefnogi datblygiad cyfannol y plant. [1]

.....................................................................................................................................................

.....................................................................................................................................................

**2.** Esboniwch sut mae cymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae ystyrlon *(meaningful)* yn gallu effeithio ar ddatblygiad deallusol. [4]

.....................................................................................................................................................

.....................................................................................................................................................

.....................................................................................................................................................

.....................................................................................................................................................

.....................................................................................................................................................

.....................................................................................................................................................

.....................................................................................................................................................

.....................................................................................................................................................

Arholwr yn unig

**3.** Cwblhewch y siart isod.

Rhowch **ddwy** enghraifft o sut mae'r ardal chwarae mathemateg/rhif yn ysgogol *(stimulating)* ac yn heriol. [4]

| | **Enghreifftiau** |
|---|---|
| Ysgogol | 1. ..........<br>..........<br>2. ..........<br>.......... |
| Heriol | 1. ..........<br>..........<br>2. ..........<br>.......... |

5952N1012C2 05

**4.** Esboniwch sut mae timau amlasiantaethol yn gallu gweithio gyda'i gilydd i gefnogi datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu Poppy. [3]

..........

..........

..........

..........

..........

..........

Arholwr yn unig

**5.** Mae John wedi gweld y gallai fod angen cefnogaeth ychwanegol ar Poppy ar gyfer ei datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu.

Amlinellwch sut llwyddodd John i ddysgu am anghenion cefnogi ychwanegol Poppy. [2]

..........

..........

..........

..........

**6**. Rhowch **bedwar** rheswm pam mae datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu yn bwysig ar gyfer llesiant. [4]

(i) ..........

..........

(ii) ..........

..........

(iii) ..........

..........

(iv) ..........

..........

**7.** *(a)* Diffiniwch beth yw ystyr 'cyfathrebu effeithiol'. [1]

..........

..........

Arholwr yn unig

*(b)* Esboniwch pam mae cyfathrebu effeithiol yn bwysig er mwyn meithrin perthnasoedd cadarnhaol â theuluoedd a rhieni/gofalwyr. [4]

........................................................................................................................................................................

........................................................................................................................................................................

........................................................................................................................................................................

........................................................................................................................................................................

........................................................................................................................................................................

........................................................................................................................................................................

........................................................................................................................................................................

........................................................................................................................................................................

**8.** Trafodwch sut mae Little Stars wedi cefnogi Jack yn ystod ei gyfnod trosglwyddo *(transition)* wrth iddo ddechrau yn y feithrinfa. [4]

........................................................................................................................................................................

........................................................................................................................................................................

........................................................................................................................................................................

........................................................................................................................................................................

........................................................................................................................................................................

........................................................................................................................................................................

........................................................................................................................................................................

........................................................................................................................................................................

Arholwr yn unig

**9.** Awgrymwch **dair** ffordd mae'r feithrinfa'n cefnogi'r plant i ddysgu sgiliau Cymraeg newydd. [3]

(i) ..............................................................................................................

..............................................................................................................

(ii) ..............................................................................................................

..............................................................................................................

(iii) ..............................................................................................................

..............................................................................................................

**DIWEDD Y PAPUR**


© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

**Parhad yn unig.**

Arholwr yn unig

**Parhad yn unig.**

# TUDALEN WAG